# Cwmpas x ColegauCymru

**Astudiaeth Achos**

Prosiect masnachol gan
Dwf Busnes ac
Ymgynghoriaeth.

ColegauCymru
CollegesWales

# Mae Cwmpas wedi bod yn cefnogi ColegauCymru, elusen addysg Gymraeg sy'n hyrwyddo buddiannau cyhoeddus addysg bellach, ar eu taith gwerth cymdeithasol.

Bu Sarah Evans, Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth, yn gweithio'n agos gyda Rachel Cable, Cyfarwyddwr Polisi a Materion Cyhoeddus ColegauCymru, ar brosiect ymchwil er mwyn sefydlu a deall gwerth cymdeithasol y sector addysg bellach (AB) Cymru yng Nghymru. Roedd CLES, y sefydliad cenedlaethol ar gyfer economïau lleol, hefyd yn cefnogi'r ymchwil gwerth cymdeithasol fel partner ar y prosiect.

Mae'r ymchwil wedi'i rannu â phob un o'r 60 Aelod o'r Senedd, Ysgrifennydd y Cabinet a swyddogion Llywodraeth Cymru.



**Sarah Evans**
Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth

Sarah yw Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth Cwmpas a bu'n gweithio'n flaenorol fel prif reolwr mewn Llywodraeth Leol ac Uwch-ddarlithydd/Ymchwilydd ym Mhrifysgol Wrecsam.

## Beth yw Gwerth Cymdeithasol

### Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â chreu gwerth y tu hwnt i elw – gwerth sy'n helpu Cymru i ffynnu.

TMae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn rhoi'r uchelgais, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol, i ni i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd fel cenedl. Mae gan Gymru bopeth i'w ennill trwy weithredu yn ôl llythyren ac ysbryd y Ddeddf.

Nod Cwmpas yw rhoi gwerth cymdeithasol wrth wraidd pob busnes a sefydliad gyda chymorth sy'n ymarferol ac yn bragmatig i anghenion busnes.



## Ein gwaith gydag ColegauCymru

CMae ColegauCymru hefyd yn ymgymryd ag ymchwil a datblygu polisi, gan ddarparu cymorth ymarferol i'r gymuned AB. Gan weithio'n agos gyda Llywodraeth Cymru, ei hasiantaethau a rhanddeiliaid eraill, mae'r elusen yn helpu i lunio polisïau sy'n effeithio ar y sector AB, eu dysgwyr a'u staff.

Gan gydweithio â 13 o golegau AB ledled Cymru, roedd Rachel eisiau, "amlygu'r ysgogwyr strategol yn y sector AB, gan gynnwys rôl colegau fel sefydliadau angori sy'n gwneud cyfraniad sylweddol i'w heconomïau a'u cymunedau lleol". Mae Rachel yn esbonio, gan eu bod wedi'u gwreiddio yn eu cymunedau lleol ers cyhyd, mai nod y prosiect ymchwil gwerth cymdeithasol, gyda chyllid gan Lywodraeth Cymru, oedd, "deall yn well sut mae colegau AB yng Nghymru yn cyfrannu at les cymdeithasol y tu hwnt i'w rolau addysgol traddodiadol." Am fod gan Cwmpas ddealltwriaeth amlwg o'r sector AB yn benodol, ond hefyd o'r dirwedd bolisi ehangach a gwerth cymdeithasol yng Nghymru, daeth Cwmpas i fod yn rhan o'r prosiect, i gefnogi. Fel elusen addysg, mae Rachel yn esbonio bod:

"ColegauCymru yn credu bod gan bob dysgwr yr hawl i addysg o'r radd flaenaf, wedi'i darparu mewn lleoliad diogel, amrywiol a chynhwysol ac o fewn sector sy'n cefnogi'r gymuned ehangach, cyflogwyr a'r economi."

Roedd y prosiect gwerth cymdeithasol yn cynnwys cyfuniad o ddulliau ansoddol a meintiol yr oedd Cwmpas yn eu cefnogi, gan gynnwys:

- Cynnal gweithdy ar-lein
- Cwmpasu fframwaith ar gyfer gwerth cymdeithasol
- Llunio'r cyfweliadau a'r grwpiau ffocws
- Cynnal dadansoddiad data
- Dylunio'r fethodoleg
- Casglu'r astudiaethau achos

Roedd y cyfweliadau'n cynnwys penaethiaid o'r 13 coleg AB a gafodd eu cyfweld gan Cwmpas er mwyn egluro eu dealltwriaeth o werth cymdeithasol yn y sector, yr hyn yr oedden nhw eisiau o'r prosiect a beth oedd eu nodau llesiant. O'r ymchwil, canfu Sarah a thîm Cwmpas, o fewn y sector AB yng Nghymru, y deallwyd bod gwerth cymdeithasol wrth wraidd popeth y mae'r colegau'n ei wneud, ond nad oedd yn cael ei labelu felly.

Mae Rachel yn esbonio: "Mae'r astudiaethau achos wedi cael effaith arbennig, gan roi cyfle i bob Aelod o'r Senedd ddysgu mwy am eu colegau lleol a deall y manteision y maen nhw'n eu darparu i'w cymunedau priodol. Ychwanegodd Sarah:

"Fe wnaethon ni edrych ar werth cymdeithasol trwy lens Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, y mae llawer o golegau AB Cymru yn ei defnyddio fel sail i'w gwaith."

→

Effaith

Unwaith yr oedd y data wedi'i gasglu, roedd canfyddiad clir yn amlwg; y rôl hanfodol y mae colegau'n ei chwarae o fewn y gymuned leol a llunio economi Cymru yn y dyfodol. . Bydd yr ymchwil gwerth cymdeithasol nawr yn cael ei ddefnyddio gan GolegauCymru a'r sector AB wrth symud ymlaen i:

- Hysbysu Bwrdd a Fforwm Penaethiaid ColegauCymru o'u meddyliau a'u penderfyniadau wrth symud ymlaen.
- Llywio meddwl a datblygiad polisi yn y dyfodol, yn enwedig ynghylch gwerth cymdeithasol a sut mae pob coleg yn cyfrannu at y saith Nod Llesiant er mwyn helpu i gyd-fynegi gwerth cymdeithasol y sector.

Gan dynnu sylw at y berthynas allweddol rhwng y coleg a chymunedau busnes, dangosodd y data bwysigrwydd hyrwyddo menter gymdeithasol er mwyn i fyfyrwyr gefnogi busnesau lleol. Mae edrych ar wahanol gyfleoedd hyfforddi a chymwysterau y gall y coleg eu rhoi yn caniatáu cyfleoedd i gymunedau adeiladu eu gweithlu eu hunain mewn gwirioedd, trwy bobl ifanc yn aros yn yr ardal leol a gweithio gyda busnesau.

.

### Cyngor i fusnesau eraill sydd am fabwysiadu gwerth cymdeithasol yn y gweithle

Mae Rachel o'r farn bod yr ymchwil gwerth cymdeithasol wedi darparu tystiolaeth gadarn i ddeall pwysigrwydd y rôl y mae'r sector AB yn ei chwarae yn y gymuned a'r economi Gymreig ehangach: "Roedd cyflwyno'r dull cymysg yn llwyddiannus yn defnyddio data meintiol a data ansoddol presennol, gan arwain at adroddiad a roddodd gyd-destun cyfoethocach i'r setiau data."

Adlewyrchwyd y canfyddiad hwn gan y colegau addysg bellach ledled Cymru. Mae Sarah yn ymhelaethu bod un astudiaeth achos leol a oedd wir yn sefyll allan ac wedi creu argraff arni:

**"Roedd y coleg yn gallu gweld nad oedd y Stryd Fawr yn Aberhonddu yn gwneud yn dda iawn, roedd rhai o'r tafarndai a siopau eraill yn cau. Felly, fe brynon nhw un o'r tafarndai ac maen nhw wrthi'n gwneud y lle yn fan lle gall eu myfyrwyr lletygarwch ddod i goginio, bod yn staff blaen y tŷ a helpu i greu'r fwydlen."**

cwmpas

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol

Ffôn: 0300 111 5050
E-bost: info@cwmpas.coop
Gwefan: cwmpas.coop